

Pwyllgor Adfywio

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2018

YN BRESENNOL:	Mr Robert G Parry OBE FRAGS (Cadeirydd) Mr J Arwel Roberts (Is-gadeirydd) Y Mri John Griffith, Richard Griffiths, R. Meirion Jones, Eric Wyn Jones a Bryan Owen
WRTH LAW:	Trysorydd Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn allan yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM) Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR), Rheolwr Grantiau (JW), Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Y Mri Carwyn Jones, Alun Roberts a Ieuan Williams.
HEFYD YN BRESENNOL:	Mr T LI Hughes MBE – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn Mr Richard O Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan:-

Mr Richard Griffiths – datganiad o diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/19 – Cymdeithas Dreftadaeth Amlwch, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Mr R Meirion Jones – datganiad o diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/19 – Band Biwmares, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Mr Richard O Jones – datganiad o ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/19 – Cymdeithas Dreftadaeth Amlwch, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Mr Bryan Owen – datganiad diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/19 – Tudur Cyf, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

2 COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2018 eu cadarnhau.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw.

4 CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR 2018/19

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Trysorydd bod 34 o geisiadau wedi dod i law a'u bod wedi eu hystyried gan y Pwyllgor mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2018. Lluniodd y Pwyllgor restr fer o 15 o geisiadau grant a oedd angen eu hasesu mewn mwy o fanylder ac a oedd angen mwy o wybodaeth arnynt mewn perthynas â'r cais. Nodwyd bod y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017, wedi penderfynu argymhell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn y dylid rhyddhau £350k i ariannu grantiau mawr yn 2018. Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn yr argymhelliad yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2018.

Cynhaliwyd trafodaeth fanwl mewn perthynas â'r 15 cais ar y rhestr fer ac fe BENDERFYNWYD argymhell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn yn y cyfarfod a gynhelir ar 17 Ebrill, 2018:-

- Bod 14 o'r ceisiadau grant a gafodd eu rhoi ar y rhestr fer yn cael eu cefnogi gyda 12 yn derbyn y swm y gofynnwyd amdano a 2 yn derbyn swm llai na'r hyn y gofynnwyd amdano;
- Bod 1 o'r 15 cais a roddwyd ar y rhestr fer yn aflwyddiannus;
- Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn gyda'r symiau a argymhellir fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Adfywio.

Y Cyngorydd Robert G Parry OBE FRAgS
Cadeirydd